Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Y Bannau**
**Penlan**
**Brecon**
**Powys**
**LD3 9SR**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol y Bannau wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Cryfhau arweinyddiaeth a sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu'n strategol

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd staffio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu strwythur arweinyddiaeth cadarn er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol.  Mae hyn wedi arwain at greu ethos o gydweithio effeithiol rhwng holl staff yr ysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Ers yr arolygiad craidd, mae aelodau'r uwch dîm rheoli wedi cydweithio'n effeithiol i ymateb i'r argymhellion.  Erbyn hyn, mae cyfarfodydd arweinwyr a staff yn canolbwyntio'n briodol ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod staff yn fwy ymwybodol o'u rolau wrth wireddu blaenoriaethau'r ysgol.  Bellach, mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd sy'n amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac mae prosesau rheoli perfformiad addas yn eu lle ar gyfer y pennaeth dros dro a'r athrawon.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at adnabod anghenion dysgu proffesiynol athrawon yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â'u datblygiad personol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â swyddogion yr awdurdod ac ysgolion ar draws y consortiwm er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio effeithiol rhwng y pennaeth dros dro â phennaeth arall i sefydlu prosesau hunanwerthuso cadarn a gwella arweinyddiaeth strategol yr ysgol.  Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i wella'u medrau arweinyddiaeth trwy ymgymryd mewn cyrsiau a datblygiad proffesiynol pwrpasol.  Mae hyn yn cyfrannu'n addas at eu dealltwriaeth o weithredu'n fwy strategol ac i godi safonau.  Mae arweinwyr yr ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl arolygiad yn briodol, er nid ydynt bob tro yn mesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon cadarn.

### A2. Cryfhau prosesau hunanarfarnu er mwyn adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant, a'u monitro'n fwy effeithiol

Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth dros dro wedi cydweithio'n effeithiol gyda swyddogion yr awdurdod lleol, penaethiaid ysgolion eraill, y consortiwm a'r llywodraethwyr i ymgymryd mewn ystod o weithgareddau monitro buddiol.  Mae'r ysgol wedi sefydlu rhaglen berthnasol i werthuso gwaith yr ysgol sy'n seiliedig ar

graffu ar lyfrau, monitro cynlluniau athrawon, arsylwi ar wersi a rhannu arfer dda o ran yr addysgu. Caiff athrawon eu cynnwys yn llawn yn y broses. Mae hyn yn wedi arwain at greu ethos o gydweithio fel tîm ymhlith y staff a sicrhau tryloywder o fewn y broses.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canfod barn rhieni, llywodraethwyr a disgyblion trwy holiaduron pwrpasol. Yn ogystal, mae aelodau'r cyngor ysgol yn craffu ar lyfrau gydag athrawon er mwyn nodi beth maent wedi mwynhau, ynghyd a chryfderau a meysydd i'w gwella'n briodol. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau bod llais yr holl randdeiliaid yn cael eu hystyried yn llwyddiannus wrth werthuso bywyd a gwaith yr ysgol.

Erbyn hyn, mae adroddiadau monitro arweinwyr, sy'n deillio o'r gweithgareddau craffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi, yn canolbwyntio'n addas ar agweddau priodol o'r dysgu a'r addysgu. Mae'r sylwadau ar ddiwedd y broses arsylwi gwersi yn dechrau cynnig cyfeiriad clir i athrawon o beth sydd angen ei wella. Mae'r llywodraethwyr hefyd yn cyfrannu'n llwyddiannus at y broses mewn adroddiadau monitro pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau monitro'r uwch dîm rheoli bob amser yn ddigon miniog nac yn ddigon arfarnol. O ganlyniad, nid oes ganddynt drosolwg digon clir ar gryfderau a meysydd gwella, er enghraifft yr anghysondebau yn ansawdd yr addysgu.

**A3. Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion**

Mae'r arweinwyr wedi adolygu polisi asesu'r ysgol yn briodol ac mae hyn wedi sicrhau bod gweithdrefnau clir yn eu lle. O ganlyniad, mae cysondeb yn y modd mae athrawon yn cynnig adborth ar waith disgyblion. Lle'n briodol, mae'r meini prawf llwyddiant o fewn gwersi yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygu medrau penodol disgyblion. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd pwrpasol i hunanasesu eu gwaith yn erbyn y meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau adnabod y camau i'w cymryd er mwyn llwyddo yn eu gwaith.

Ar y cyfan, mae adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn cynnig sylwadau defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella. Lle mae'r adborth fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn myfyrio ar sylwadau'r athro a gwella eu gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu.

Bellach, mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio ystod berthnasol o asesiadau er mwyn mesur cynnydd disgyblion, gan ddechrau defnyddio'r wybodaeth i gynllunio'r ffordd ymlaen. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y gweithdrefnau newydd hyn ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion eraill yn y clwstwr er mwyn cymedroli gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae dealltwriaeth athrawon o ofynion deilliannau a lefelau yn datblygu'n dda.

## A4. Codi safonau ysgrifennu Cymraeg

Ers yr arolygiad craidd, mae athrawon yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae prosiect 'Storm Sgwennu' wedi ennyn diddordeb ymysg disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu'n hyderus. Trwy rannu eu gwaith gyda'u rhieni a chyhoeddi'r gwaith ym mhapur bro lleol 'Y Fan a'r Lle', mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu llwyddiant.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n synhwyrol trwy ddilyn patrymau cyfarwydd a defnyddio atalnodi syml. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Maent yn defnyddio ansoddeiriau ac idiomau, ac yn amrywio brawddegau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus, er enghraifft, wrth ysgrifennu portread o Elen Benfelen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn trefnu darnau o waith yn gywir ac yn eu haddasu'n briodol i wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd. Maent yn sillafu llawer o eiriau yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol gan ddefnyddio paragraffau i drefnu eu testun. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau'n llwyddiannus i ysgrifennu'n estynedig, er enghraifft, wrth ysgrifennu dadl o blaid neu yn erbyn codi melinau gwynt ar dir yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol, nid yw'r ddarpariaeth pob tro yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu yn gyson ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw safon yr ysgrifennu bob amser yn adlewyrchu'r safon a welir mewn llyfrau iaith.

## A5. Gwella ansawdd yr addysgu i ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion

Mae athrawon wedi sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol o fewn eu dosbarthiadau ac maent yn cynllunio profiadau diddorol sy'n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn fwriadus. Mae perthynas waith adeiladol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion sy'n sicrhau ymrwymiad y disgyblion i'w dysgu. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn, ac ar y cyfan, maent yn cyflwyno gwersi a thasgau'n glir ac yn effeithiol. Lle mae'n briodol, mae athrawon yn gwneud cysylltiadau clir gyda dysgu blaenorol sy'n sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau a'u dealltwriaeth yn dda. Mae athrawon yn cwestiynu'n bwrpasol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion, ac ar y cyfan, maent yn sicrhau cyflymdra addas i'w gwersi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad disgyblion i'w gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ymateb yn llawn i anghenion disgyblion mwy abl, gan fod diffyg her yn y tasgau.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymchwilio drostynt eu hunain, er enghraifft, mewn ymchwiliadau gwyddonol a gweithgareddau datrys problemau rhif. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae'r gweithgareddau ar adegau'n rhy strwythuredig ac yn cael eu harwain yn ormodol gan y staff. Mae hyn cyfyngu disgyblion rhag datblygu'n ddysgwyr creadigol, annibynnol a hyderus.

Ar y cyfan mae egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith gyda darpariaeth gyfoethog yn cefnogi'r dysgu'n briodol.  Mae athrawon yn cynllunio ystod addas o weithgareddau buddiol er mwyn i ddisgyblion ddarganfod drostynt eu hunain.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn ar draws y cyfnod.

Er mwyn gwella ansawdd yr addysgu, mae athrawon wedi elwa o ystod o brofiadau buddiol wrth arsylwi arfer dda mewn ysgolion eraill a sesiynau modelu a monitro pwrpasol.  Mae hyn wedi codi hyder ymysg y staff ac wedi arwain at welliannau mewn rhan fwyaf o ddosbarthiadau.  Fodd bynnag mae agweddau o addysgu yn parhau yn agwedd i'w datblygu.

### A6. Cryfhau rôl y llywodraethwyr i weithio'n fwy strategol a chyflawni eu dyletswyddau statudol

Bellach, mae gan lywodraethwyr gyfrifoldebau penodol, yn ogystal â chyswllt clir ag argymhellion yn y cynllun ôl-arolygiad.  O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n fwy effeithiol at y gwaith o adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys ynglŷn â monitro'r addysgu, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae hyn wedi cryfhau eu dealltwriaeth a'u gallu i werthuso'r ddarpariaeth yn wybodus ac i gymryd rôl fwy strategol yn natblygiad yr ysgol.  Maent bellach yn cyfrannu sylwadau cadarn mewn ystod eang o adroddiadau monitro gan nodi camau gweithredol addas ar gyfer gwelliant.

Mae gan y llywodraethwyr adnabyddiaeth glir o flaenoriaethau'r ysgol.  Maent yn defnyddio arbenigeddau aelodau'r corff llywodraethol yn effeithiol er mwyn datblygu eu rôl strategol ym mhrosesau'r ysgol.  Trwy hyfforddiant perthnasol a chysylltu â llywodraethwyr mewn ysgolion eraill, mae eu rôl fel aelodau'r corff llywodraethol yn datblygu'n dda.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth bwrpasol gan y pennaeth a'r awdurdod lleol am gynnydd tuag at y targedau yn y cynllun ôl-arolygiad.  Bellach, maent yn arfarnu cynnydd yn fwy effeithiol.  O ganlyniad, mae gallu'r llywodraethwyr i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif yn datblygu'n dda.

**Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**